Ysgol Bro Gwydir

Cylchlythyr/ Newsletter
4ydd Orffennaf 2022/ 4th July 2022

Dyddiadur/ Diary

5/7/22	Prynhawn agored Ysgol gyfan 3:30- 5:30/ Open afternoon for all parents 3:30-5:30
6/7/22	Gwyl Rygbi ar y Traeth yr Urdd Urdd Rugby on the beach festival
8/7/22	Picnic yn y Parc i'r dosbarth Derbyn a Meithrin/ Picnic in the Park for Reception and Nursery
8/7/22	Hwyl hefo Dwr i flwyddyn 3 a 4 Fun with water for year 3 & 4
12/7/22	Gwasanaeth ffarwelio blwyddyn 6 1:30yp / Year 6 leavers assembly 1:30pm
13/7/22	Diwrnod hwyl i flwyddyn 6/ Year 6 fun day
15/7/22	Ysgol yn Cau/ School Closes

Gwasanaeth ffarwelio a diwrnod hwyl bl 6
Year 6 Farwell Service and fun day

Bydd croeso i rieni blwyddyn 6 ymuno a gwasanaeth ffarwelio blwyddyn 6 ar brynhawn dydd Mawrth, 12fed o Orffennaf am 1:30yp yn neuadd yr ysgol. Ar ddydd Mercher, 13eg o Orffennaf, byddwn yn trefnu i'r disgyblion gael sglodion yn y Parc a sesiwn Splash yn y Pwll Nofio.

Year 6 parents are welcome to join the year 6 farewell service on Tuesday afternoon,12 July at 1:30 pm in the school hall.
On Wednesday, July 13th, we will be arranging for pupils to have a chips in the Park and a Splash session in the Swimming Pool.

Prynhawn Agored/ Open Afternoon
5ed o Orffennaf 2022 3:30-5:30yp
5th July 2022 3:30-5:30pm

Edrychwn ymlaen at groesawu rhieni a ffrindiau i'r ysgol ar brynhawn dydd Mawrth, 5ed o Orffennaf. Bydd cyfle i'r disgyblion dywys rhieni i ymweld â'u dosbarth presennol, dangos eu gwaith, ardaloedd yr ysgol, a dangos pa ddosbarth y byddant ym Mis Medi. Bydd yr athrawon o gwmpas i gyflwyno eu hunain ac i'ch arwain o gwmpas y dosbarth.

Bydd amrywiaeth o stondinau yn y neuadd ac o gwmpas yr ysgol wedi eu trefnu gan yr athrawon a Chymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol.

We look forward to welcoming parents and friends to the school on Tuesday afternoon, 5th July. The pupils will have the opportunity to guide parents to visit their current class, show their work, the school areas, and show which class they will be in September. The teachers will be around to introduce themselves and to guide you around the class.

There will be a variety of stalls in the hall and around the school organised by the teachers and the school's Parents and teachers Association.

Taith Gerdded Noddedig Pier i Bier
Sponsored Walk from Pier to Pier

Ar Ddydd Sadwrn, yr 2il o Ebrill, daeth newyddion torcalonnus am farwolaeth sydyn ac annisgwyl Mabli Dafydd yn 13 mlwydd oed.
Roedd Mabli yn gyn-ddisgybl yn Ysgol Bro Gwydir, Llanrwst ac roedd pob amser yn annwyl a chwrtais â gwên fawr ar ei hwyneb.
Yn dilyn y newyddion trist, rydym fel staff Ysgol Bro Gwydir wedi penderfynu ymgymryd â sialens er cof am Mabli ac i gasglu arian tuag at dwy elusen sy'n agos at galonnau'r teulu sef '2Wish', elusen sy'n cefnogi teuluoedd sydd wedi eu heffeithio gan farwolaeth sydyn mewn pobl ifanc, a chyn glwb pêl-droed Mabli sef Clwb Pêl-Droed Llanrwst.
Ar Ddydd Sul, 3ydd o Orffennaf, byddwn yn cerdded cyfanswm o 25 milltir o Bier Bangor i Bier Bae Colwyn.
Gwerthfawrogwn unrhyw gyfraniad tuag at yr achosion da i gofion annwyl iawn am Mabli drwy **swyddfa'r ysgol neu drwy dudalen 'GoFund'**

On Saturday, 2nd of April we received the heart-breaking news of Mabli Dafydd's sudden and unexpected passing at 13 years old. Mabli was an ex-pupil at Ysgol Bro Gwydir, Llanrwst and was always kind and courteous with a big smile on her face.

Following the sad news, the staff at Ysgol Bro Gwydir have decided to undertake a challenge in memory of Mabli and to raise money to charities close to the family's heart, '2Wish', a charity that supports those affected by sudden death in young people and the football club which Mabli was a member of, Llanrwst Football Club.

On Sunday, 3rd of July, we will take part in a sponsored walk starting from the Pier in Bangor and walk a total of 25 miles to Colwyn Bay Pier.

We appreciate any donations to the special causes in fond memory of Mabli via the school office or **through the 'GoFund' page.**

Gwersi cerddoriaeth
Music Lessons

Cynigir gwersi cerddoriaeth i ddisgyblion blwyddyn 3-6 . Y gost ar gyfer pob gwers fydd £6 yr wythnos, sy'n daladwy drwy ParentPay. Os hoffech i'ch plentyn dderbyn gwersi gofynnwn yn garedig i chi lenwi'r ffurflen drwy ddilyn y ddolen isod erbyn dydd Gwener, 8fed o Orffennaf.

Year 3-6 pupils are offered music lessons. The cost for each lesson will be £6 per week, payable through ParentPay. If you would like your child to receive lessons we kindly ask that you complete the form by following the link below by Friday, July 8th.

https://forms.gle/NECsUhYmvPjWD8ST6

Picnic yn y Parc i'r dosbarth
Meithrin a Derbyn
Nursery and Reception Picnic in the Park
8/7/22

Bydd disgyblion y derbyn a meithrin yn cael parti yn parc yr ysgol ar fore dydd Gwener, 8fed o Orffennaf.
Bydd eich plentyn yn cael bwyd parti gan Anti Megan am bris cinio ysgol- £2.85. I gael ei dalu drwy 'PARENT PAY'.
Bydd nifer o weithgareddau hwyl wedi eu trefnu Bydd angen rhoi eli a het haul ar eich plentyn yn y bore os yw'n ddiwrnod braf. Mae croeso i'r plant wisgo dillad eu hunain i fwynhau'r bore. Bydd disgyblion yn gorffen ar yr amser arferol.

A party in the park will be organised for the Nursery and Reception children on Friday morning the 8th July. The children will have party food prepared by Auntie Megan the school cook for the price of school lunch- £2.85, to be paid through PARENT PAY. There will be a number of fun activities organised. Please ensure your child has sun cream and a hat on if it's a sunny day. child is welcome to come to school in their own clothes to enjoy the morning. The pupils will finish at the usual time.

Dychwelyd eitemau'r ysgol / Return School Property

Wrth i ni agosáu at ddiwedd y tymor, gofynnwn yn garedig i chi fynd ati weld os oes eitemau sy'n perthyn i'r ysgol yn eich cartref e.e. llyfrau darllen neu ddillad sbâr. Gofynnwn yn garedig i chi ddychwelyd yr eitemau cyn diwedd y tymor os gwelwch yn dda.

As we approach the end of term, we kindly ask if you have any school items in your home e.g. reading books or spare clothes. Please return the items before the end of term.

Gŵyl Flodau Eglwys Sant Crwst
St Crwst Church Flower Festival

Dyma gyfraniadau Dosbarth Eryri a Dosbarth Gwyddfid i Ŵyl Flodau Eglwys Sant Grwst eleni ar y thema 'Ffydd, Gobaith, Cariad'. Ewch i gefnogi penwythnos 'ma, mae'r arddangosfa flodau werth ei gweld!

Here are the Eryri class and Gwyddfid class contributions to the St Grwst Church Flower Festival this year on the theme 'Faith, Hope, Love'. Go and show your support this weekend, the flower displays are fabulous!

Sioe Llanrwst
Llanrwst Show

Llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu yn Sioe Llanrwst! Dyma lun o Jini, mochyn cwta ddosbarth Eryri ddaeth yn gyntaf yn y Sioe!

Congratulations to everyone who competed in the Llanrwst Show! Here is a picture of Jini, Eryri class' Guinea Pig who came first in the Show!